# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 17-08 (p10) : 12 Mehefin 208**

## Ymchwiliad i gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru

Tystiolaeth a baratowyd gan Sgiliau Iechyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 12 Mehefin 2008.

### 1. Cefndir

1.1 Sgiliau Iechyd yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer sector iechyd y DU, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, darparwyr gofal iechyd annibynnol, a chyrff gwirfoddol a chymunedol sy'n ymwneud ag iechyd.

1.2 Mae Sgiliau Iechyd yn croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu i'r ymchwiliad ar gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru.

1.3 Mae Sgiliau Iechyd wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu medrus, hyblyg, a chynhyrchiol ar gyfer y sector iechyd cyfan ym mhob cenedl yn y DU, er mwyn gwella ansawdd iechyd, a gofal iechyd, i'r cyhoedd, i gleifion, ac i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

1.4 Mae Sgiliau Iechyd yn credu fod gan y Cytundeb Sgiliau Sector yng Nghymru rôl allweddol i ganfod a mynegi anghenion am sgiliau yn y dyfodol, ac i sbarduno darpariaeth dysgu fwy arloesol gan sefydliadau addysg uwch i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n ceisio gwella sgiliau a chynhyrchiant y gweithlu yn y sector iechyd yng Nghymru, ac fe'i datblygwyd gyda mewnbwn o'r sector addysg uwch.

1.5 Mae data o'r Arolwg Gweithlu yn cadarnhau yr oedd 116,690 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector gofal iechyd yng Nghymru yn 2007. Mae GIG Cymru'n cyflogi'r rhan fwyaf o'r rhain, sef 89,007. Mae gan 63% o'r gweithlu yn y sector gofal iechyd gymhwyster ar lefel 3 neu'n uwch.

1.6 Mae'r Adroddiad gan yr Arglwydd Leitch, 'The Leitch Review of Skills in the Global Economy', a'r ddogfen ymgynghorol ddiweddar 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r lefel sgiliau, a'r targed yw y bydd gan 30% o oedolion Cymru gymhwyster ar lefel 4 neu'n uwch erbyn 2010.

### 2. Gweithio gyda Darparwyr Addysg Uwch

2.1 Mae gan Sgiliau Iechyd Strategaeth Addysg Uwch yn ogystal â phroses Gwobrau a Chymwysterau sy'n seiliedig ar egwyddorion cytunedig ar gyfer cynllunio dysgu. Mae'r egwyddorion hyn (gweler atodiad 1) yn cynnwys angen am 'becynnau neu unedau dysgu sy'n diwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, cyrff proffesiynol, a rheoleiddwyr'.

2.2 Mae Sgiliau Iechyd yn hwyluso partneriaethau rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a chyflogwyr er mwyn goleuo'r broses o ddatblygu darpariaeth dysgu sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr. Ar lefel ymarferol, mae hyn yn golygu sefydlu partneriaethau cyfartal rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr, gyda phob rhanddeiliad yn deall ei rôl. Yn sgil hynny, gellir diffinio anghenion y gwasanaethau, a'r swyddogaethau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Wedyn, gellir datblygu manyleb ar gyfer cymhwyster, ac ystyried llwybrau addysgiadol hyblyg.

2.3 Mae gan Sgiliau Iechyd berthynas gweithio da gyda'r Cyngor Deoniaid (cynrychiolwyr adrannau iechyd Addysg Uwch), ac mae'n gallu defnyddio'r berthynas hon i oleuo a dylanwadu datblygiad y ddarpariaeth addysg.

2.4 Mae Sgiliau Iechyd yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch, a chyflogwyr yng Nghymru i archwilio dulliau o ddefnyddio cyllidebau i alluogi Sefydliadau Addysg Uwch i wneud gwaith datblygu pellach gyda Chynghorau Sgiliau Sector ar eu cyd-agenda.

### 3. Enghreifftiau gwaith cyfredol yng Nghymru

3.1 Mae gan Sgiliau Iechyd ystod o safleoedd arddangos ym myd Addysg Uwch. Eu nod yw sicrhau fod y ddarpariaeth dysgu a datblygu gan sefydliadau Addysg Uwch yn cael ei llunio ar sail y sgiliau a'r cymwyseddau penodol sydd eu hangen ar gyflogwyr.

3.2 Yng Ngogledd Cymru mae nifer o gyflogwyr a darparwyr addysg uwch ac addysg bellach wedi bod yn cydweithio, gan ddefnyddio'r egwyddorion cynllunio dysgu a Chymwyseddau'r Gweithlu Cenedlaethol, ar brosiect dwy flynedd sydd erbyn hyn yn dod tua diwedd ei flwyddyn gyntaf. Gyda'i gilydd, maent wedi cynllunio llwybrau addysgiadol newydd, ac maent bellach yn gweithio ar natur y gwobrau a dulliau i'w darparu'n lleol sy'n addas i'r diben ac sy'n diwallu anghenion clinigol. Mae'r gwaith a wnaed yn ymwneud â'r sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag anhwylderau tymor hir / gofal cronig, maes gwasanaeth sydd wedi'i amlygu gan Strategaeth Cyflyrau Cronig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

* Y cyfranogwyr i'r prosiect hwn yw Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) Gwynedd, BILl Ynys Môn, BILl Conwy, BILl Sir Ddinbych, BILl Sir y Fflint, BILl Wrecsam, Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Prifysgol Bangor, Coleg Llandrillo, Coleg Menai, a Choleg Iâl.

3.3. Bydd y prosiect hwn hefyd yn cynnal gwerthusiad o berfformiad y modiwlau addysg newydd, ac o weithrediad y strwythur gwobrau newydd. Hefyd, archwilir lefelau athreuliad dysgwyr, a'r nifer o ddysgwyr sy'n mynd ymlaen o'r wobr i rôl yn y sector iechyd.

3.4 Hefyd, mae Sgiliau Iechyd yn gweithio ym maes Iechyd Cyhoeddus, gyda'r 12 Sefydliad Addysg Uwch, Canolfan Iechyd Cymru, a chyflogwyr. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu addysg iechyd amlddisgyblaethol yn seiliedig ar gymhwysedd yn y sector prifysgol ar draws y wlad. Defnyddir y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Iechyd Cyhoeddus fel fframwaith i sefydlu agwedd cyson, sicr ei ansawdd, tuag at ddarpariaeth addysg uwch.

### 4. Crynodeb/ Argymhellion

4.1 Mae gan Sgiliau Iechyd berthynas sydd, ar y cyfan, yn gynhyrchiol gyda Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, gydag enghreifftiau cryf o weithio mewn partneriaeth a chydweithio. Mae mwyafrif y Sefydliadau Addysg Uwch wedi bod yn awyddus iawn i weithio gyda ni, ac i ffurfio partneriaethau gyda chyflogwyr. Mae hyn yn gam cadarnhaol iawn.

4.2 Mae'r cyd-brosiectau / cydweithio'n creu cyfleoedd gwerthfawr i gyflogwyr a Sefydliadau Addysg Uwch rannu dysgu, a chydweithio i ddatblygu dulliau o ddarparu dysgu sy'n ffocysu ar anghenion cyflogwyr.

4.3 Fodd bynnag, mae meysydd lle mae angen i Sefydliadau Addysg Uwch wneud gwaith pellach.

4.4 Rhaid i strwythuro a chynllunio addysg fod yn un o'r blaenoriaethau, ac yn benodol yr angen i ddarparu dysgu mewn modiwlau byr, gyda mwy o hyblygrwydd yn y cynllunio ac yn y llwybrau dilyniant, a'r gallu i drosglwyddo dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd. Mae angen lleihau'r angen i ail-wneud hyfforddiant nad yw'n ennill credydau nag yn cael ei gydnabod gan y sector cyfan a'r tu hwnt. Mae cydnabod sgiliau generig/ craidd sy'n drosglwyddadwy yn allweddol. Mae angen i'r sector Addysg Uwch ystyried sut y gellir macsimeiddio achredu addysg a dysgu blaenorol.

4.5 Mae Addysg Uwch yn wynebu her wrth ddiwallu anghenion a disgwyliadau sector cymhleth gydag anghenion newidiol, ffocws cynyddol ar ail-gynllunio'r gweithlu, a dymuniad am hyblygrwydd yn y ddarpariaeth. Bydd angen i Sefydliadau Addysg Uwch fod yn ymatebol ac yn gynyddol arloesol yn eu hagwedd er mwyn cwrdd â'r disgwyliadau hyn.

4.6 Mae sefydlu cymwyseddau fel rhan annatod o Addysg Uwch yn allweddol er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr, ac mae hyn yn flaenoriaeth er mwyn gwireddu'r agenda sgiliau.

Sgiliau Iechyd
Mai 2008

## Atodiad Un – Egwyddorion Cynllunio Dysgu

### Egwyddorion Cynllunio Dysgu:  Sgiliau Iechyd

### Cefndir

Mae Sgiliau Iechyd yn gweithio tuag at ddatblygu a chyflwyno fframwaith gwobrwyon a chymwysterau yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y sector iechyd.  Gwaith uchelgeisiol yw llunio a chynnal, fesul dipyn, ystod gymhleth, ac ystod sy'n newid yn gyflym, o wobrau a chymwysterau achrededig sy'n seiliedig ar, ac yn mapio ar Gymwyseddau'r Gweithlu Cenedlaethol neu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae llawer o waith ar y gweill er mwyn gwireddu hyn, er enghraifft y gwaith cyfredol ar draws y DU i lunio a diwygio'r ffordd y rhoddir credydau am gyraeddiadau dysgu.  Un flaenoriaeth ar gyfer gwaith datblygu ar hyn o bryd yw'r ymrwymiad i strwythuro cynllunio addysg a darpariaeth hyfforddiant i ddarparu mwy o unedau dysgu byr, mwy o hyblygrwydd yn y cynllunio a'r llwybrau dilyniant, a hyblygrwydd a throsglwyddedd cymwyseddau.

Ar hyn o bryd, cymwysterau a gwobrau yw'r prif ddulliau o fesuro sgiliau, gwybodaeth a/neu safonau proffesiynol ar draws y sector. Defnyddir y term 'cydnabod a gwobrwyo dysgu' trwy gydol y papur hwn i ddiffinio'r ystod o becynnau dysgu, modiwlau, unedau, gwobrau, a chymwysterau. Neges bwysig, yn ein tyb ni, yw nad yw'r term 'cymwysterau' ar ei ben ei hun yn rhoi darlun digonol o'r strwythurau addysgiadol a'r strwythurau cynllunio dysgu a fydd eu hangen yn y dyfodol i ddiwallu anghenion y sector iechyd. Mae blaenoriaethau newydd, ynghyd â'r angen am ail-gynllunio'r gweithlu i ehangu mynediad a llwybrau dilyniant yn llorweddol ac yn fertigol i gyd yn cynyddu'r angen am ddulliau hyblyg newydd o ddarparu dysgu a datblygu a fydd yn ymateb i lu o flaenoriaethau a disgwyliadau.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno egwyddorion cynllunio dysgu Sgiliau Iechyd.  Maent wedi'u cynllunio i sicrhau fod llunio gwobrau, cymwysterau a dulliau eraill o gydnabod cyrhaeddiad yn y dyfodol yn digwydd mewn ffordd sy'n sicrhau agwedd cydlynol tuag at adeiladu, fesul dipyn, fframwaith cydnabod a gwobrwyo dysgu ar gyfer y sector iechyd.  Bydd defnyddio'r egwyddorion cynllunio dysgu sydd yn y ddogfen hon yn sicrhau fod datblygiadau yn cwrdd ag anghenion y dyfodol, ac yn darparu'r 'pecynnau' dysgu a sgiliau, y strwythurau cynllunio, yr hyblygrwydd, y trosglwyddedd, y llwybrau dilyniant, a'r 'addasrwydd i'r diben' yn ei gyfanrwydd, ar gyfer y fframwaith cydnabod a gwobrwyo dysgu sy'n datblygu.

### Fframwaith Cydnabod a Gwobrwyo Dysgu – egwyddorion cynllunio

Bydd pob uned, modiwl, gwobr a chymhwyster yn ymwneud ag iechyd yn cael ei ddatblygu ar sail yr egwyddorion cynllunio canlynol:-

Cydnabod a gwobrwyo dysgu i'w datblygu ar sail gwybodaeth gadarn am yr angen neu'r rhesymeg.

Unedau/ modiwlau dysgu sy'n hyblyg ac sy'n datblygu'n gyson, sy'n sefyll yn unigol ac sy'n galluogi diffinio pecynnau dysgu sy'n seiliedig ar, ac sy'n mapio i, Gymwyseddau'r Gweithlu Cenedlaethol.

Strwythur sy'n sicrhau aliniad gyda: disgrifwyr lefelau addysg y DU ac Ewrop, Fframweithiau Gyrfa, Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG, a fframweithiau lefel ac achredu sy'n benodol i wledydd unigol.

Pecynnau neu unedau dysgu sy'n diwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, cyrff proffesiynol, a rheoleiddwyr trwy ddefnyddio 'rheolau cyfuno' wrth lunio gwobrau a chymwysterau.

Strwythur sy'n hwyluso a hyrwyddo egwyddorion cynyddu sgiliau trwy ddarparu llwybrau dilyniant llorweddol a fertigol sydd hefyd yn rhoi'r cyfle i astudio lled a/neu ddyfnder gwybodaeth a sgiliau fel bo angen.

Gwobrwyo a chydnabod gwahanol fathau o ddysgu (ffurfiol, yn y gweithle, trwy brofiad, anffurfiol, a damcaniaethol).

Asesiad dysgu sy'n ddibynadwy ac o ansawdd wedi'i sicrhau, a datblygiadau dysgu parhaol hyblyg.

Cydnabyddir fod yr egwyddorion a gynigir yn glynu'n agos at ymarfer da a safonau ar gyfer cynllunio dysgu a fabwysiadwyd gan ein gwahanol bartneriaid darparu dysgu, a thrwy hynny'n atgyfnerthu dilysrwydd a dibynadwyedd egwyddorion cynllunio dysgu Sgiliau Iechyd.